



Annwyl Riant/Warcheidwad

Mae'r wythnos gyntaf wedi hedfan ac mae'r ysgol yn teimlo fod ei henaid wedi dychwelyd wrth gael y disgyblion nôl. Mae llawer o ddisgyblion wedi ymgartrefu unwaith eto wrth gael y cyfle i weld, gweithio a chwarae gyda'i ffrindiau. Mae'r broses o ddychwelyd i'r ysgol wedi ymddangos yn y wasg o bêrspectif rhai disgyblion ([Disgyblion ar draws Cymru yn dychwelyd i'r ysgol - BBC Cymru Fyw](#)) a staff ([Disgyblion "wedi ymateb yn dda i sefyllfa anodd" wrth ddychwelyd i'r ysgol – Golwg360](#)).

Camau diogelu

Mae nifer o gamau gweithredu i osgoi COVID dal yn weithredol yn yr ysgol. Mae'r rhai allweddol sydd wedi bod yn rhan o fywyd ysgol ers mis Medi, ac mae'r rhain yn parhau yn allweddol gan gynnwys:

- Cadw mewn swigod dosbarth neu flwyddyn,
- Golchi neu ddiheintio dwylo yn rheolaidd, yn enwedig wrth ddod mewn i'r adeilad a chyn bwyta
- Gwirio tymheredd ar ddechrau'r dydd
- Adrodd ar y symptomau ac ynysu os oes gennych unrhyw un o dymheredd uchel, peswch parhaol neu golli blas neu arogl.

Mae'r ffynhonnau dwr wedi eu diffodd felly mae'n bwysig bod disgyblion yn dod â photel dwr ac wrth i'r tywydd cynhesu efallai bydd angen ystyried defnyddio potel fwy o faint

Profion LFT

Rydyn ni heb gael dyddiad ar gyfer derbyn cyflenwad ychwanegol o brofion LFT ar gyfer disgyblion blwyddyn 7-9. Byddwn ni'n dosbarthu'r profion i'r disgyblion sydd wedi dychwelyd ffurflen caniatâd yn syth ar ôl eu derbyn.

Prosiect pleidlais

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn cynnal 'prosiect pleidlais' gydag etholiad paralel i ddisgyblion ysgol o 11 i 15 mlwyddyn oed ar draws Cymru. Mae disgyblion y chweched ddosbarth a llawer o ddisgyblion blwyddyn 11 yn medru pleidleisio yn yr etholiad seneddol felly ni fyddant yn rhan o'r prosiect. Dros yr wythnosau nesaf bydd cyfleoedd i ddisgyblion dysgu am bolisiau ac egwyddorion pleidiau gwahanol fel rhan o'r broses. Plant heddiw yw dyfodol ein gwlad a bydd hwn yn gyfle i rieni hefyd trafod gwleidyddiaeth gyda'r disgyblion. Bydd disgyblion yn derbyn dolen i bleidleisio ar-lein a bydd hwn y canlyniadau cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi gan Gomisiynydd Plant Cymru.

Asesiadau

Mae'r asesiadau ar gyfer disgyblion blwyddyn 11-13 wedi dechrau. Er mwyn ceisio sicrhau amser i ddisgyblion setlo mewn mae llai o asesiadau yn yr wythnosau cyntaf a mwy ar ddiwedd Ebrill ac yn ystod mis Mai. Rydyn ni wedi ceisio gwasgaru'r asesiadau cymaint â phosib ond nid yw'n bosib osgoi rhai cyfnodau mwy prysur. Rydyn ni'n ymddiheuro am hwn, ond os ydych chi'n pryderu am eich plentyn mae'n bwysig trafod hwn gyda'r arweinwyr cynnydd a lles.

Er mwyn ceisio helpu disgyblion sydd o dan bwysau rydyn ni wedi trefnu sesiwn rithiol gyda Phrifysgol De Cymru. Mae hwn ar gyfer disgyblion a rhieni blwyddyn 11-13 ar ddydd Mawrth nesaf am 17:00 yn ffocysu ar gynnal lles yn ystod cyfnodau arholiad/asesu. Mae'r ddolen [yma](#).

"Iechyd Meddwl a Lles / Mental Health and Wellbeing (dwyieithog)

Mae'r sesiwn wedi ei greu gan reolwr llysgenhadon Myfyrwyr y brifysgol fel ei fod yn berthnasol i ddisgyblion ysgol, gyda mewnbwn o fyfyrwyr israddedig hefyd.

Mae'r sesiwn hon yn bwriadu i ddarparu'r mecanweithiau i helpu chi i gynnal eich iechyd meddwl a lles yn ystod eich astudiaethau, gan gynnwys profiadau myfyrwyr presennol israddedig."

Edrych ymlaen

Rydyn ni wedi treulio llawer o amser yn delio gyda'r heriau presennol, ond mae'n bwysig ein bod ni'n cynllunio ar gyfer y camau nesaf.

Blwyddyn 7-9

Rydyn ni wedi dysgu disgyblion blwyddyn 7-9 yn yr un ystafelloedd er mwyn cadw'r swigod ar wahân. Er mwyn dechrau ymestyn profiadau disgyblion rydyn ni nawr yn dechrau symud y disgyblion ar gyfer ambell wers ymarferol. Gall hwn gynnwys rhai gwersi yn yr awyr agored, ond er mwyn defnyddio rhai ystafelloedd arbenigol, er enghraifft ar gyfer TGCh, bydd rhaid i ddisgyblion gwneud 'wipedown' o'r offer cyn ei ddefnyddio.

Blwyddyn 9

Mae blwyddyn 9 wedi derbyn llyfryn opsiynau a chael cyfle i roi syniad bras o'u dewisiadau i ni. Mae noson rieni blwyddyn 9 hefyd wedi rhoi cyfle i chi drafod syniadau gyda'r athrawon.

Byddwn ni'n cynnal y broses dewisiadau ffurfiol dros yr wythnosau nesaf. Bydd hwn yn cynnwys:

- Rhannu cyflwyniadau wedi eu recordio gan arweinwyr pynciau er mwyn ychwanegu at y wybodaeth sydd yn y llyfryn sydd eisoes wedi ei ddsbarthu.
- Rhannu'r colofnau dewis.
- Cynnal cyfres o sesiynau pynciol i rai sydd eisiau ychydig mwy o wybodaeth am bynciau penodol.

Bydd disgyblion sy'n ffeindio'r broses o ddewis yn anodd yn medru derbyn cyngor ychwanegol os maen nhw'n cysylltu gyda'r arweinydd cynnydd a lles.

Blwyddyn 11

Mae blwyddyn 11 wedi derbyn ychydig o wybodaeth am y dewisiadau sydd ar gael yn yr ysgol, gan gynnwys llyfryn opsiynau a chael cyfle i roi syniad bras o'u dewisiadau i ni. Byddwn ni'n gofyn am fwy o wybodaeth am eu bwriadau dros yr wythnosau nesaf er mwyn sicrhau cefnogaeth briodol iddynt ar gyfer y cam nesaf yn eu bywydau, beth bynnag yw'r llwybr maent wedi ei ddewis.

Eleni rydyn ni wedi ehangu ein darpariaeth i ymateb i lais y disgybl, gyda chyrsgiau newydd mewn seicoleg, gwleidyddiaeth a throsedddeg ar gael i'n disgyblion yn y chweched dosbarth. Bydd y broses o geisio am le yn y chweched a gwneud dewisiadau terfynol yn gynharach eleni. Mae disgyblion yn derbyn eu graddau dros-dro yn ystod mis Mehefin a bydd hwn yn ein galluogi i gynnal y prosesau mynediad cyn gwyliau'r haf.

Deallwn fod disgyblion blwyddyn 11 wedi colli allan ar lawer yn ystod y ddwy flynedd olaf. Bydd cyfle iddynt gael cefnogaeth bynciol ar gyfer nifer o'u dewisiadau pynciol mewn sesiynau yn yr ysgol yn ystod Mehefin a Gorffennaf. Trwy gynyddu'r profiadau diwylliannol a chymdeithasol sydd ar gael i ddisgyblion pan mae rheoliadau COVID yn caniatáu byddwn ni'n cefnogi eu medrau cymdeithasol a phersonol a'r sgiliau ehangach sydd yn allweddol wrth ddatblygu'r person cyflawn. Bydd ein rhaglen ar gyfer disgyblion dylai ystyried y prifysgolion fwyaf cystadleuol hefyd yn dechrau yn ystod y cyfnod hwn.

Gall ddisgyblion sy'n ffeindio'r broses o ddewis yn anodd yn medru derbyn cyngor ychwanegol os maen nhw'n cysylltu gyda'r arweinydd cynnydd a lles.


Chweched

Mae nifer o brifysgolion yn cynnal sesiynau blasu ar amrywiaeth o bynciau. Mae'r sesiynau rithiol hyn yn gyfle i ddisgyblion cael syniadau am opsiynau sydd ar gael ar gyfer astudio ymhellach. Mae'r sesiynau hyn yn cynnwys:

Prifysgol Abertawe: Cyfres "Newyddion Cyfoes" dros y mis nesaf ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys 'Cyffuriau mewn Chwaraeon', 'Tyllau du' a 'A ddylem ni allu cau pobl i lawr?'. Mae'r rhestr lawn a'r dull cofrestru ar gael yma: [Weminarau a Sesiynau ar Bwnc Penodol - Prifysgol Abertawe](#)

Prifysgol Aberystwyth a'r Coleg Cymraeg: Cynhadledd Seicoleg ar 28ain o Ebrill. Mae'r seminarau wedi eu hanelu at fyfyrwyr prifysgol ond bydd cyfle yn y prynhawn i weld y cyfleoedd sydd ar gael mewn gyrfâu yn y maes. [Cynhadledd Seicoleg POSTER \(adnoddau.s3.eu-west-2.amazonaws.com\)](#)

Unwaith eto hoffwn ddweud diolch am eich holl gefnogaeth yn ystod y cyfnod clo ac edrychwn ymlaen at eich croesawu nôl i safle'r ysgol pan mae rheoliadau COVID yn caniatáu.



Dr Rhodri Thomas
(Pennaeth)